# Asesu hyfywdra prosiectau ar y cyd â dosbarthwyr ac asiantau gwerthiannau

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â chysylltu gyda dosbarthwyr ac asiantau gwerthiannau mor fuan â phosib er mwyn asesu hyfywdra busnes prosiectau.

Mae'n ymwneud â deall y broses dosbarthu a medru cydweithio gyda'r rheiny fydd yn gwerthu prosiectau.

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o waith dosbarthwyr ac asiantau gwerthiannau a'r gwahaniaeth rhwng gwerthu cynnyrch i farchnad ac i gynulleidfa. Y mwyaf fyddwch chi wedi paratoi ar gyfer cynhyrchiad, y mwyaf cymwys fydd y dosbarthwr a'r asiantau gwerthiannau i weithredu ar eich rhan unwaith y bydd y broses ôl gynhyrchu wedi'i chwblhau.

Mae'n ymwneud â deall bod marchnata'r cynhyrchiad yn rhan o'r gwaith cynhyrchu cysyniad ac nid ydyw y tu hwnt i'r camau cynhyrchu ffilmiau. Bydd angen ichi fod yn ymwybodol pryd byddwch yn meddu ar hawliau cymeradwyo a phryd byddwch yn meddu ar hawliau ymgynghori.

Mae'r gwaith hwn yn ymwneud â dosbarthu hyd at gyflwyno'r cynhyrchiad terfynol.

Mae'r Safon hon yn arbennig ar gyfer y rheiny sy'n cydweithio gyda dosbarthwyr ac asiantau gwerthiannau ar gyfer cynyrchiadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cysylltu gyda dosbarthwyr mor fuan â phosib i asesu cynnwys a straeon ar gyfer dichonolrwydd busnes
2. dangos sut gall gynnwys digolledu ar unrhyw fuddsoddiad dichonol
3. ymchwilio gwybodaeth a data sydd ar gael ar ystadegau arddangos ar gyfer prosiectau a ffurfiau tebyg
4. cymeradwyo ymgyrchoedd marchnata, rhagluniau, cipolygon, deunyddiau y tu ôl i'r llenni a phosteri pan fo angen
5. cynnig asedau i ddosbarthwyr drwy gydol y broses gynhyrchu
6. cast a chriw ar gytundeb i fynd i'r afael â cheisiadau hyrwyddol dosbarthwyr
7. mynychu marchnadoedd gydag asiantau gwerthiannau er mwyn hyrwyddo prosiectau i ddosbarthwyr dichonol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i adnabod y stori, y cynnwys a'r gynulleidfa ddichonol
2. sut gall gynnwys greu elw dichonol ar fuddsoddiad
3. sut i ymchwilio data arddangos er mwyn canfod hyfywdra dichonol prosiectau
4. sut i ystyried goblygiadau busnes tymor byr a hirdymor
5. swyddogaeth marchnata yn ystod camau cynhyrchu gan gynnwys cynhyrchu cysyniadau
6. sut i ofalu caiff yr holl gyflawniadau cytundebol eu bodloni
7. sut i ofalu eich bod yn hyrwyddo cynyrchiadau yn y ffordd orau posib
8. gwaith dosbarthwyr ac asiantau gwerthiannau
9. y gwahaniaethau rhwng gwerthu cynnyrch i farchnad ac i gynulleidfa
10. sut i gydweithio gyda dosbarthwyr er mwyn cymeradwyo ymgyrchoedd marchnata
11. pryd byddwch chi'n meddu ar hawliau cymeradwyo a phryd byddwch yn meddu ar hawliau ymgynghori.
12. diben cyhoeddusrwydd a beth gall ei gyflawni a beth na all ei gyflawni
13. diben rhagluniau a sut dylid eu strwythuro er mwyn cael yr effaith gorau posib
14. sut i greu asedau gan gynnwys pecynnau gwasg electronig (EPK) a phecynnau y tu ôl i'r llenni at ddefnydd cwmnïau dosbarthu
15. sut i gytundebu'r cast a'r criw i fynd i'r afael gyda cheisiadau hyrwyddol dosbarthwyr
16. gwaith asiantau gwerthiannau a sut i adnabod pa farchnadoedd fydd orau i staff cynyrchiadau eu mynychu

SKSP9

Asesu hyfywdra prosiectau ar y cyd â dosbarthwyr ac asiantau gwerthiannau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSP9 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Rheolwyr Cynhyrchu, Cydlynydd Cynhyrchu |
| **Cyfres/Set** | Cynhyrchu (Ffilm a Theledu) |
| **Geiriau Allweddol** | Teledu, Ffilm, Dosbarthwyr, Asiantau |